

Paul Mee
Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau
i Blant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
Rhondda Cynon Taf
CF40 2XX

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 24 Mai a 28 Mai 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig o wiriadau sicrwydd ym mis Medi.

Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym wedi trefnu ein canfyddiadau gan gyfeirio at y pedair egwyddor: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalmwr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi'n glir ei fwriad strategol a gweithredol i gefnogi pobl ifanc agored i niwed, oedolion a gofalmwr drwy gydol pandemig COVID-19 (y pandemig). Mae'r arweinwyr wedi parhau i gadw golwg ar y sefyllfa gyfnewidiol o ran COVID-19, ac o ganlyniad ceir cynlluniau clir ac ymarfer/ymatebion arloesol i ymdrin â'r heriau cysylltiedig. Mae'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr yn parhau i roi ystyriaeth gyson i'r hyn sy'n gweithio'n dda ac i wahanol ffyrdd o weithio yn sgil y pandemig, ac maent yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Bu cyfradd haint COVID-19 yn Rhondda Cynon Taf yn uchel iawn. Mae'r awdurdod lleol yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau ac anghenion sy'n fwy cymhleth, gan gynnwys anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gydweithio â phartneriaid i feithrin a chefnogi cymunedau cryf.

Dywedodd y bobl wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â nhw, a hynny mewn ffordd ddiogel, drwy gydol y pandemig. Clywsom am y ffordd roedd technoleg gwybodaeth wedi cael ei defnyddio i gadw mewn cysylltiad â phobl a datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Roedd yr awdurdod lleol wedi cysylltu â phobl drwy ddulliau rhithwir yn ogystal â wyneb-yn-wyneb lle bo angen, ac wedi asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth wneud hynny fel y bo'n briodol.

Dywedodd y bobl wrthym ei bod yn hawdd cysylltu â'r awdurdod lleol yn gyffredinol; roeddent yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roeddent yn gallu trafod y cymorth sydd ar gael iddynt ac roeddent o'r farn bod y wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth a oedd yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol yn ddefnyddiol. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael cyngor yn briodol ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau/asiantaethau eraill.

Yn gyffredinol, gwelsom fod yr awdurdod lleol yn ceisio barn pobl a bod pobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio asesiadau a chynllunio gofal a chymorth. Roedd recordiadau achosion yn amrywio o ran cofnodi cyfraniad yr unigolyn dan sylw. Caiff y bobl gyfleoedd i wneud sylwadau ar y gwasanaethau y maent yn eu cael.

Gwelsom fod dull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau wedi'i ymgorffori mewn ymarfer yn y gwasanaethau oedolion, a bod hyn yn cefnogi trefniadau cyd-gynhyrchu a nodi canlyniadau personol. Roedd materion yn ymwneud â chydsyniad, eiriolaeth, galluedd meddyliol a budd pennaf yn cael eu hystyried fel mater o drefn yn gynnar yn y broses ymgysylltu. Roedd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio'n briodol i lywio asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.

Roedd y ffeiliau a welsom yn y gwasanaethau plant yn cynnwys tystiolaeth bod gwybodaeth yn cael ei chasglu i adlewyrchu amgylchiadau'r plentyn. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau lle y bo angen. Gwelsom fod gan yr ymarferwyr a'r swyddogion adolygu annibynnol ddealltwriaeth o amgylchiadau a phrofiadau'r plant a'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw. Roedd yr ymarferwyr yn ystyried eiriolaeth yn gyson ac yn ei chynnig. Mae'r awdurdod lleol wedi nod bod angen gwneud mwy o waith yn y gwasanaethau plant er mwyn ymgorffori model ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n hanfodol bod y model ymarfer yn sicrhau pwyslais parhaus ar gynnydd a phrofiadau'r plant a bod proses sicrhau ansawdd gadarn yn cael ei rhoi ar waith sy'n mesur effaith y model.

Gwelsom enghreifftiau o ofalwyr yn cael cynnig asesiad gofalwr ac o farn gofalwyr yn cael ei hadlewyrchu mewn recordiadau. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi gofalwyr y mae angen rhagor o gymorth arnynt ac wedi adrodd am gynnydd o tua 30% yn fwy o asesiadau gofalwyr eleni o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym fod gwaith i gefnogi gofalwyr wedi parhau drwy gydol y pandemig, er i hynny gael ei wneud weithiau mewn ffyrdd gwahanol a llai dwys. Er enghraifft, roedd y gofalwyr wedi cael eu cefnogi drwy adnoddau ar-lein a dyfeisiau, ac roedd gwasanaeth cwnsela ar gael iddynt. Disgrifiodd yr ymarferwyr y ffordd y cysylltwyd â'r gofalwyr a sut y daethpwyd i gytundeb ynghylch sut a phryd y byddai/y gallai gofal a chymorth gael eu darparu.

Caiff y bobl y cyfle i deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom enghreifftiau o daliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig a'u derbyn, gan helpu i roi hyblygrwydd i'r bobl a rheolaeth dros y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Roedd tystiolaeth bod yr awdurdod yn defnyddio taliadau uniongyrchol mewn ffordd ymatebol er mwyn darparu dull cymorth amgen.

Mae sicrhau llesiant y staff yn flaenoriaeth allweddol i'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o lesiant y staff yn cael ei hybu. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys prosesau hunan-atgyfeirio fel bod modd i'r staff fanteisio ar gyfleusterau iechyd galwedigaethol, sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar a sesiynau cwnsela. Gwelsom fod morâl y staff yn dda ar y cyfan. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr a'u rheolwyr yn eu cefnogi i wneud eu gwaith, a dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth achosion. Disgrifiodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddull gweithredu 'ati gyda'n gilydd' yn ystod y pandemig, a oedd, yn eu barn nhw, yn eu helpu i weithio'n dda fel tîm, gyda phwyslais clir ar bobl y mae angen gofal a

chymorth arnynt. Clywsom am staff a oedd yn gweithio'n hyblyg i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r bobl.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom fod dull atal integredig a chadarnhaol ar waith. Gwelsom enghreifftiau o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau yn rhannu gwybodaeth ac yn nodi plant a/neu oedolion yr oedd angen eu hamddiffyn a'u helpu, ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol i'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd ymateb prydlon i risgiau ac anghenion uniongyrchol. Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi bod angen rhagor o waith/hyfforddiant yn y gwasanaethau oedolion er mwyn sicrhau bod canlyniadau posibl risgiau a nodwyd yn cael eu cydnabod yn gyson, a bod y camau priodol ac amserol angenrheidiol yn cael eu cymryd i liniaru'r risgiau lle bo angen.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gynnal ffocws strategol da ar atal, cynaliadwyedd y farchnad a datblygu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Roedd enghreifftiau o ddatblygu gwasanaethau parhaus yn cynnwys dechrau cynnal cynadleddau grŵp teulu a datblygu rhagor o lety Gofal Ychwanegol. Mae'r gwaith a gynlluniwyd wedi parhau mewn perthynas ag ailfodelu/trawsnewid rhai timau/gwasanaethau, gyda'r nod o wella profiad defnyddwyr y gwasanaethau.

Mae rhestrau aros mewn rhai meysydd gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaeth synhwyrdd, y gwasanaeth addasiadau a chyfarpar cymunedol, a gofal a chymorth. Dywedodd yr awdurdod lleol fod rhestrau aros wedi datblygu/wedi gwaethgu o ganlyniad i gynnydd yn a galw a bylchau mewn rhai timau. Mae'r rheolwyr yn rhagweithiol yn y ffordd y maent yn monitro'r bobl hynny sy'n aros am wasanaeth, yn cynnal asesiad risg ac yn adolygu eu statws blaenoriaeth. Mae cynlluniau ar waith i leihau rhestrau aros. Bydd angen i'r awdurdod barhau i fonitro'r maes hwn yn ofalus er mwyn nodi cynnydd ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi 'Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal' ar waith gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, sydd yn flaenoriaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gostyngiad graddol wedi bod yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu darn o waith annibynnol i adolygu'r strategaeth er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a meysydd ar gyfer dysgu. Mae gan yr uwch-reolwyr a'r swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd a gwybodaeth dda amdano, ac maent yn gwbl ymrwymedig i'r agenda atal. Maent yn awyddus i ddatblygu eu hopsiynau ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd cymhleth, yn arbennig i'r bobl ifanc hynny ag anghenion cymhleth iawn, ac maent yn mynd ati i gynnal astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas ag ehangu eu darpariaeth breswyl. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn perthynas â'r llwybr llety i bobl sy'n gadael gofal. Bydd angen i'r awdurdod barhau i fonitro'r maes hwn yn ofalus er mwyn nodi cynnydd ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Yn y gwasanaethau oedolion, nodwyd gennym fod seilweithiau cefnogol ar waith ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd, yn ogystal â systemau cyflenwi cysylltiedig. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio, a oedd yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o bobl yn cael eu cefnogi i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac enghreifftiau eraill o bobl yn cael eu cefnogi gartref i sicrhau na fydd yn rhaid iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty nac i ofal preswyl. O ganlyniad i gyfraniad amserol yr holl weithwyr proffesiynol, sicrhawyd bod gwasanaethau a chyfarpar ar gael i'r bobl fel bod modd iddynt gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Partneriaeth ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Mae ymrwymiad clir i gydweithio ym mhob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd yn amlwg bod cydberthnasau â phartneriaid wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y pandemig.

Dyweddodd y darparwyr wrthym am ddulliau cyfathrebu da a chyfarfodydd cadarnhaol a gynhaliwyd â chynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Gwnaethant sylwadau ar y ffordd roedd y sector wedi elwa ar yr arweinyddiaeth a'r cymorth amserol a roddwyd gan yr awdurdod lleol. Mae dulliau cyfathrebu a phrosesau rhannu gwybodaeth effeithiol wedi cefnogi'r gwaith agos a wnaed gyda darparwyr annibynnol. Dywedodd y darparwyr wrthym fod diwylliant o ymddiriedaeth wedi datblygu. Dywedodd un o'r darparwyr, *"There has been a lot more working together with organisations and that can only be better for the individuals we support"* (Rydym wedi bod yn cydweithio llawer mwy â sefydliadau, a gall hynny ond fod yn well i'r unigolion rydym yn eu cefnogi).

Roedd trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn amlwg iawn yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH). Roedd gan y MASH gydberthnasau sefydledig â phartneriaid. Drwy gydweithio gweithredol rhwng gweithwyr amlasiantaethol proffesiynol, sicrhawyd bod gwaith effeithiol yn cael ei wneud o ran rhannu gwybodaeth, a nodi a monitro anghenion a risgiau plant ac oedolion. Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu'n brydlon ym mhob rhan o'r grŵp amlasiantaeth ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau a chmau gweithredu mewn perthynas â llesiant a diogelwch pobl.

Clywsom am enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid er mwyn cefnogi llesiant y bobl. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi pobl gyda thasgau megis mynd â'r ci am dro a chasglu bwyd, a'r Llwybr Llesiant Integredig a ddatblygwyd rhwng y gwasanaethau plant, gwasanaethau addysg a chynhwysiant a darparwyr cwnsela er mwyn sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi drwy gydol y pandemig.

Ar lefel unigol, clywsom am enghreifftiau cadarnhaol o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth. Roedd eu hymarfer yn

barchus a gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddeall amgylchiadau'r bobl ac i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; mae wedi gwneud ymdrechion i sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofawyr y mae angen cymorth arnynt. Ar lefel unigol mae hyn wedi cynnwys holi'r unigolion am eu dymuniadau a'u teimladau, gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddatblygu atebion creadigol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt eu hunain a hybu/sicrhau eu llesiant.

Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn gyson. Yn y gwasanaethau oedolion, bu oedi wrth gwblhau rhai asesiadau ac adolygiadau. Cawsom wybod bod sawl rheswm dros hyn gan gynnwys galw cynyddol a bylchau/swyddi gwag mewn rhai timau. Mae'r rheolwyr yn monitro, yn asesu risgiau ac yn blaenoriaethu'r bobl hynny sy'n aros am asesiad/adolygiad yn rheolaidd. Roedd camau wedi cael eu cymryd er mwyn cynyddu capasiti i fynd i'r afael â'r oedi wrth gwblhau adolygiadau.

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ati i ddatblygu, addasu a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn hybu llesiant pobl. Gwelsom enghreifftiau o gynlluniau wrth gefn a blaenoriaethu'r gwasanaethau a ddarperir. Clywsom am nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r modd roedd y gwasanaethau/ cymorth a oedd yn cael eu darparu wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddiogelwch a llesiant llawer o bobl yn ystod y pandemig. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys y gwasanaeth ymatebwyr symudol â'r nod o atal galwadau diangen i'r gwasanaethau brys, cymorth allgymorth, pecynnau gweithgareddau chwarae, ac ail-bennu swyddi 120 o aelodau o'r staff i ddod i gysylltiad â phobl ar y rhestr o unigolion a warchodir.

Gwelsom ymatebion amserol i ymholiadau diogelu. Roedd dulliau gweithredu'r ymarferwyr yn ystyrlon ac yn drefnus ac roedd partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys, lle y bo'n berthnasol. Yn gyffredinol, roedd risgiau a chryfderau'n cael eu hystyried, ac roedd cynlluniau diogelwch clir yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru risgiau a/neu anghenion a nodwyd. Mae'r gwaith o oruchwylio oedolion a allai fod yn wynebu risg wedi cael ei wella drwy roi proses ar waith sy'n golygu bod y tîm diogelu yn goruchwylio nifer o achosion lle mae sawl hysbysiad diogelu'r cyhoedd yn dod i law.

Mae recriwtio a chadw gweithlu sefydlog yn parhau'n flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Roedd swyddi gwag mewn rhai timau. Roedd materion o ran capasiti, ynghyd â chymhlethdod achosion, yn achosi pwysau yn rhai o'r timau. Roedd y rheolwyr wedi ceisio cynyddu capasiti yn y timau hyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â rhoi

strategaeth gweithlu ar waith, sy'n cynnwys y nod o gael gweithlu gyda digon o staff, sydd â'r gwerthoedd, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i ddiwallu anghenion plant ac oedolion yn Rhondda Cynon Taf.

Dull:

- gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o'r system gofal
- gwnaethom edrych ar 36 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal naw cyfweiliad olrhain achosion ag ymarferwyr
- gwnaethom gynnal arolygon i; bobl oedd â phrofiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff, arweinwyr diogelu, yr heddlu a gweithwyr addysg a gofal iechyd proffesiynol
- gwnaethom siarad ag ymarferwyr, rheolwyr, darparwyr, penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr, aelodau etholedig a phartneriaid

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru